

## Gwasanaethau ar gael drwy'r llyfrgell

Mae gan pob llyfrgell yng Ngwynedd gasgliad o lyfrau am ofalu; rhai ohonynt wedi'u hysgrifennu gan ofalwyr. Hefyd mae yno fynediad am ddim i gyfrifiaduron a'r rhyngwyd mewn llyfrgelloedd – mae llawer fforymau ar-lein sydd yn benodol i ofalwyr a fyddech, efallai, yn canfod yn ddefnyddiol. Mae wi-fi hefyd ar gael ym mhob llyfrgell.

**Nid ydym yn codi dirwyon o gwbl ar unrhyw lyfrau sydd yn hwyr yn cael eu dychwelyd.**

**Pan fyddwch yn benthg llyfr bydd gennych 12 wythnos o'r dyddiad dychwelyd i ddod â'ch llyfrau yn ôl i'r llyfrgell. Ar ôl y 12 wythnos, byddwch yn gyfrifol am ad-dalu cost llawn y llyfr. Ond os ydym yn derbyn y llyfr yn ôl gennych unrhyw amser – ni fydd unrhyw ddirwy nac unrhyw gost i chi!**

**Mae manylion llawn am oriau agor y Llyfrgelloedd ar gael yma**

**[www.gwynedd.llyw.cymru/llyfrgell](http://www.gwynedd.llyw.cymru/llyfrgell)**

### Llyfrgell i'r Cartref

Mae Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd yn cynnig gwasanaeth llyfrgell i'r cartref, mewn achosion ble mae person yn:

- dioddef o anawsterau symudedd
- methu cario eitemau
- dioddef o salwch tymor hir
- byw yn bell o fan gwasanaeth llyfrgell (adeilad neu deithiol)

neu

- **edrych ar ôl rhywun yn llawn-amser**

Maent yn cynnig dewis o lyfrau a llyfrau llafar yn Gymraeg a Saesneg a llyfrau Print Bras - Cymraeg a Saesneg. Mae hwn yn wasanaeth misol cyfeillgar ac yn hollol rhad ac am ddim.

Gallwch wneud cais ar-lein am y gwasanaeth llyfrgell i'r cartref o'n safle we :-

<http://www.gwynedd.llyw.cymru/llyfrgell>, neu drwy e-bost at [llyfrgell@gwynedd.llyw.cymru](mailto:llyfrgell@gwynedd.llyw.cymru)

neu ffoniwch ni **01286 679463**

## Gwasanaethau ar gael drwy'r llyfrgell

**Gwasanaeth Cludo** - Os nad ydych eisiau gwasanaeth misol rheolaidd ond eisiau archebu llyfrau bob hyn a hyn i'w darllen, yna gallwch gysylltu gyda ni i gael llyfrau wedi eu cludo yn rhad ac am ddim i'ch cartref, unrhyw bryd. Ffoniwch eich llyfrgell neu mae modd i chi ymweld a [www.gwynedd.llyw.cymru/llyfrgell](http://www.gwynedd.llyw.cymru/llyfrgell) i lenwi'r ffurflen archebu ar-lein.

Cysylltwch gyda ni hefyd os ydych eisiau trefnu sesiwn Cymorth Digidol un i un. Gall Llyfrgellydd eich helpu gyda sgiliau digidol neu ddefnyddio cyfrifiaduron neu ddyfais fel tabled/i-pad/ffôn

## Casgliad Darllen Yn Well

Mae gennym gasgliadau o lyfrau sy'n delio'n benodol a rhoi cefnogaeth i rai sy'n byw gydag anhwylderau neu gyflyrau iechyd a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Mae'r llyfrau Darllen yn Well yn cynnwys llyfrau ar ddementia neu llyfrau ar iechyd meddwl ac ar gael trwy eich llyfrgell a gallwch archebu unrhyw un o'r llyfrau.

Ewch i [www.gwynedd.llyw.cymru/llyfrgell](http://www.gwynedd.llyw.cymru/llyfrgell) > Iechyd a Lles i ddarganfod mwy.

neu [Darllen yn well \(reading-well.org.uk\)](http://Darllen_yn_well_(reading-well.org.uk))

## e-adnoddau

Gyda'ch aelodaeth llyfrgell gallwch gael yr isod i gyd am ddim. Ewch i [www.gwynedd.llyw.cymru/catalogllyfrgell](http://www.gwynedd.llyw.cymru/catalogllyfrgell)

- benthg a lawrlwytho e-lyfrau ac e-lyfrau llafar yn Gymraeg a Saesneg trwy

### **Borrowbox**

- lawrlwytho y cylchgronau mwyaf poblogaidd i'ch cyfrifiadur neu ddyfais, fel cylchgronau ar arddio, y tŷ, ffotograffiaeth, ceir a llawer iawn mwy...
- defnyddio gwefan ancestry (trwy'r cyfrifiaduron Llyfrgell yn unig)
- darllen papurau newydd am ddim trwy'n gwasanaeth Press Reader
- Gwneud ceisiadau am lyfrau trwy ein catalog

Lawrlwythwch ein ap **Pori** i chwilio'r catalog, archebu ac adnewyddu eich llyfrau.-



Gwasanaethau ar gael drwy'r llyfrgell (Ionawr 2022)